




YOU RAISE ME UP

Ysgrifennwyd y gerddoriaeth gan **Rolf Løvland** o Norwy a'r geiriau gan **Brendan Graham** o Iwerddon yn 2002. Os mai Arfon Wyn yw pencampwr Cân i Gymru, gall Brendan Graham hawlio dwy fuddugoliaeth i Iwerddon yng nghystadleuaeth yr Eurovision Song Contest gyda "Rock 'n' Roll Kids" (1994) a "The Voice" (1996). Ac mae Rolf Løvland wedi ennill y gystadleuaeth ddwywaith hefyd i Norwy gyda'r caneuon "La det swinge" yn 1985 a "Nocturne" in 1995.

Bu "You Raise Me Up" yn llwyddiant ysgubol byd eang i Westlife (heblaw yn yr Unol Daleithiau). Amcangyfrifir fod mwy na 400 o wahanol artistiaid wedi cyhoeddi fersiynau o'r gân. Mae llwyth o amrywiadau i'w clywed ar YouTube. Bellach mae'n emyn cyfoes poblogaidd .



Ffurfiwyd y "boy band" Westlife yn 1998 a daeth i ben yn 2012. Deuai'r criw gwreiddiol o Sligo yn Iwerddon. Cawsant eu harwyddo gyntaf gan Simon Cowell a'u rheoli gan Louis Walsh. Maent wedi gwerthu 50 miliwn o recordiau drwy'r byd, yn cynnwys 11 miliwn albwm a bron i 7 miliwn sengl ym Mhrydain.



Ganed awdur y geiriau Saesneg **Brendan Graham** yn Tipperary, Iwerddon yn 1945. Ar wefan <http://www.irishwriters-online.com/graham-brendan/> gallwch weld y perfformiad cyntaf cyhoeddus o You Raise Me Up gan Secret Garden, sef grŵp Rolf Løvland a'r ffidlydd Gwyddelig, Fionnuala Sherry.

Awdur y geiriau Cymraeg yw **Aled Lewis Evans**. Ganwyd ym Machynlleth, a'i fagu yn Y Bermo. Cafodd ei addysg uwchradd yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam ac ym Mhrifysgol Bangor. Ef oedd Bardd y Mis Radio Cymru yn Rhagfyr 2015. Bu'n athro yn Ysgol Morgan Llwyd ac yn ddarlledwr cyson ar radio lleol yn y Saesneg a'r Gymraeg.

Enillodd deirgwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol: ym 1991 am Gyfrol o Gerddi i Bobl Ifanc, ym 1998 am fonolog ac ym 1999 am flodeugerdd o gerddi addas i'r oedran 12-14. Gallwch ei weld yn darllen un o'i gerddi difyr "Over the Llestri" am "Wenglish" y gororau ar YouTube .

Am ragor o wybodaeth gweler Wikipedia, Facebook a Twitter. **Dyma neges i'r côr gan Aled Lewis Evans....**

"Bu'n fraint cael ysgrifennu geiriau Cymraeg i "You raise me up". Os wyf yn addasu cân i'r Gymraeg bydd raid i mi drwytho fy hun yn y gân dros amser, a'i hadnabod yn llwyr. Wedi cynefino, medraf ddechrau meddwl am eiriau newydd i weddu i'r rhythmau, ac i gadw naws y darn. Mae'r Awen yn dod yn rhan o'r cyfan, a chredaf hynny yn arbennig am y gân hon, gan iddi ddod yn weddol gyflawn efo ychydig o newid-iadau yn angenrheidiol wedyn. Peth prin yw hynny.

Efallai bod mwy o naws emyn i'r fersiwn Gymraeg. Mae hynny'n creu dimensiwn ychwanegol . Rwy'n falch iawn fod cymaint o ganu wedi bod ar y geiriau, a diolch i Gôr Meibion Caernarfon am yr anrhydedd. Clywais yn gynnar iawn fod yr awdur a'r cerddor gwreiddiol o'r Iwerddon wrth eu boddau fod y gân yn cael ei chanu yn yr iaith Gymraeg."